



# Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

## Asesiad o gynnig i wahardd hawl mynediad am 5 mlynedd namyn 1 diwrnod i'r diben o atal perygl i aelodau'r cyhoedd.

---

### 1. CRYNODEB

**Cyfeirnod y cais:** AP1861 965 am 5 mlynedd namyn 1 diwrnod, sy'n dod i ben ar 28 Awst 2018.

**Ymgeisydd:** Ms Rhian Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Aran, DOLGELLAU, Gwynedd, LL40 1LW.

### 2. DEDDFWRIAETH BERTHNASOL

Defnyddio'r pwerau a roddir yn Adran 25 (1) b o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

**Cais:** Gwahardd yn llwyr hawliau mynediad i 365.50 hectar o dir sy'n cael ei adnabod yn lleol fel y "Ranges", Trawsfynydd, Gwynedd, fel sydd wedi'i nodi'n las ar y map yn Atodiad 1.

### 3. DIBEN

Diben yr asesiad Awdurdod Perthnasol hwn yw pennu a oes angen gwahardd neu gyfyngu ar hawl mynediad i barsel o dir CNC sy'n cael ei adnabod yn lleol fel y Ranges, Trawsfynydd, Gwynedd i'r diben o atal perygl i'r cyhoedd oherwydd bod arfau rhyfel heb eu ffrwydro ar safle un o hen feysydd tanio'r Adran Ryfel yn yr ugeinfed ganrif.

### 4. MANYLION LLEOLIAD

**4.1 Enw'r safle:** Yn lleol, enw'r ardal yw'r Ranges, Trawsfynydd, Gwynedd. Y Cyfeirnod Grid Cenedlaethol yng nghanol y blanhigfa yw SH 760326, ac mae oddeutu 350 metr uwchben lefel y môr. Gweler Atodiad 1 am ei leoliad.

**4.2 Arwynebedd:** 365.50 hectar.

**4.3 Disgrifiad ffisegol o'r safle:** Hen blanhigfa goed fasnachol a gliriwyd yn 2002 a 2003 o'r coed conwydd gwreiddiol a blannwyd rhwng 1964 a 1966. Ers ei chlirio,

---

---

cafodd yr ardal ei gadael yn fwriadol i aildyfu fel coetir cymysg o dir agored, coed ynn, bedw arian, helyg, a sawl man lle mae coed conwydd (rhywogaethau sbrïws a llarwydd) wedi aildyfu'n naturiol.

**4.4 Perchenogaeth tir:** Llywodraeth Cymru sydd piau'r blanhigfa goed a CNC sy'n ei rheoli ar ei rhan.

## 5. DEFNYDD TIR

**5.1 Defnydd blaenorol:** Gwerthwyd y tir gan Brif Ysgrifennydd Gwladol Adran Ryfel Ei Mawrhydi i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar 24 Mawrth 1964. Cafodd peth o'r tir yn y weithred eiddo hon ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer tanio amrywiaeth o arfau rhwng 1903 a diwedd y 1950au. Mae cofnodion Comisiwn Coedwigaeth Cymru gynt yn nodi fod y tir wedi dechrau cael ei aredig ym 1964 ar gyfer plannu sbrïws Sitca gan John Tudor Jones a Douglas E McRobert mewn tractorau a atgyfnerthwyd yn arbennig. Erbyn iddynt gwblhau'r gwaith, roeddynt wedi datgladdu tua 900 o eitemau byw a thua 20 tunnell o ddarnau o arfau wedi ffrwydro. Ym 1971, derbyniodd y ddau Fedal yr Ymerodraeth Brydeinig.

**5.1.1** Rhwng 2002 a 2003 aeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru gynt ati i gwmpo coed ar draws y safle cyfan i gael gwared ar y sbrïws Sitca a dechrau ar y broses o drawsnewid y tir yn goetir cymysg llydanddail a fyddai'n aildyfu'n naturiol. Cynhaliwyd asesiad risg gweithredol a phenderfynwyd defnyddio BACTEC<sup>1</sup>, cwmni blaenllaw ym maes gwaredu arfau a ffrwydron tir, i glirio'r safle.

**5.1.2** Aethpwyd ati i gwmpo coed drwy ddefnyddio system lle'r oedd peiriannau cynaeafu a thynnu coed yn teithio ar fatiau wedi'u creu o frigau uchaf y coed a dorrwyd. O ganlyniad, ni fu'n rhaid clirio ffrwydron o unrhyw fannau ar wahân i'r mannau hynny o dan y matiau hyn, sef oddeutu traean o'r safle cyfan, h.y. tua 120 hectar.

**5.1.3** Cymerodd y gwaith clirio 15 mis cyfan i 3 dyn yn gweithio'n amser llawn rhwng dechrau mis Awst 2002 a diwedd mis Hydref 2003. Arweiniodd hyn at ddatgladdu 67 ffrwydryn byw arall a 620 darn o arfau wedi ffrwydro.

**5.1.4** Rhwng mis Medi 2009 a mis Mawrth 2013, fel perchennog tir cyfrifol, cynhaliodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru gynt 3 arolwg asesiad risg gweithredol arall i sicrhau bod y bont Wyddelig yn cael ei chynnal a chadw'n ddiogel a hefyd i sicrhau diogelwch aelodau'r clwb saethu colomennod clai lleol sy'n cael caniatâd i ddefnyddio darn byr o ffordd drwy'r goedwig, sydd hefyd yn rhan o lwybr troed Trawsfynydd 4 ar ôl ei wyro. Arweiniodd hyn at ddarganfod 3 ffrwydryn byw arall a 13 darn o arfau wedi ffrwydro.

---

<sup>1</sup>Cwmni gwaredu arfau a ffrwydron tir yw BACTEC, sy'n darparu gwasanaethau lleddfus risg. Sefydlwyd y cwmni ym 1991, ac mae'n cefnogi prosiectau adeiladu a mentrau gwaredu ffrwydron ym mhob rhan o'r byd, ar y tir ac ar y môr. Mae rhagor o wybodaeth yn <http://www.bactec.com/about-us.htm>.

---

**5.1.5** Cwmni Maritime and Land EOD Limited a gyflawnodd y gwaith hwn, a chan ddefnyddio cyfarpar datblygedig, daeth i'r casgliad fod o leiaf un "anomaledd" ym mhob deg metr sgwâr<sup>2</sup>, sy'n cyfateb i tua 24,500 darn o arfau o'i ymestyn dros y 245 hectar sy'n weddill. Ar y pryd, amcangyfrifwyd y byddai cael gwared ar y rhain yn costio o leiaf £2 filiwn.

**5.2 Defnydd presennol:** Gadawyd yr ardal i ailgyfyngu fel coetir cymysg. Fodd bynnag, yn sgil ei gyflwyno drwy gamgymeriad<sup>3</sup> o dan Adran 16 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, mae polisi o ymyrryd cyn lleied â phosibl yn bodoli, sy'n cael ei adolygu o bryd i'w gilydd.

**5.2.1** Cafodd Cynllun Dylunio Coedwig 10 mlynedd ar gyfer Ardal Goedwig Coed y Mynydd CNC ei adnewyddu, ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan staff Grantiau a Rheoliadau CNC ar 10 Mai 2013. Caiff y Cynllun Dylunio Coedwig ei adolygu nesaf gan staff Ardal CNC ymhen 5 mlynedd yn unol ag arferion gorau safonol y diwydiant/rheoliadau.

**5.3 Dynodiadau amgylcheddol:** Lleolir y safle ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac fe'i hamgylchynir gan dir comin. Mae safle CNC yn rhan o safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig Nant y Graen a Nant Ganol<sup>4</sup> (31WGR). Mae gwahanol rannau o'r safle yn nodedig am eu diddordeb arbennig o ran:

(a) Mathau o fawn coedwig, yn enwedig priddoedd mawnog dwfn, priddoedd mawnog dwfn wedi'u haddasu, priddoedd mawnog bas a phriddoedd â phocedi o fawn.

(b) Nodweddion archaeolegol yn cynnwys Defeidiog Isaf, adeilad Defeidiog Isaf a thirwedd Defeidiog Isaf

(c) Nodweddion daearegol, yn enwedig presenoldeb ffosilau trilobit o anifeiliaid morol cynhanesyddol bach.

## 6. MYNEDIAD CYHOEDDUS CYFREITHLON

**6.1 Llwybrau cerdded:** Mae 2 hawl tramwy cyhoeddus yn mynd drwy'r safle, sef llwybr troed 4 Trawsfynydd i'r gorllewin a llwybr troed 2 Trawsfynydd i'r dwyrain. Ers 2009, symudwyd y ddau lwybr troed drwy gymorth Cyngor Sir Gwynedd i ddilyn y ffordd drwy'r goedwig i'w gwneud yn llwybrau llinol mwy diogel er defnydd y cyhoedd.

**6.2 Llwybr beicio Sustrans:** Mae ffordd gyhoeddus fach ddiddosbarth yn croesi'r safle o'r gorllewin i'r dwyrain ac mae llwybr beicio rhanbarthol Sustrans 13 yn ei dilyn ar y daith 14 milltir rhwng Llanuwchllyn a Thrawsfynydd.

---

<sup>2</sup> Mae "anomaledd" yn cyfeirio at wrthrych metalig sy'n debygol iawn o fod yn ddarn o arf sy'n dal i fod yn fyw yn ôl pob tebyg.

<sup>3</sup> Gweler adran 7 yr adroddiad hwn am esboniad mwy cynhwysfawr

<sup>4</sup> Enw safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (Deddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1981)

---

---

**6.3 Lefelau defnydd:** Ceir cyfnodau prysur a distaw tymhorol traddodiadol o ran nifer yr ymwelwyr (cerddwyr) sy'n defnyddio'r ddau hawl tramwy.

**6.4 Dynodiad tir agored:** Ers 9 Mehefin 2005 dynodwyd yr ardal yn dir agored, yn sgil ei gyflwyno drwy gamgymeriad gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru gynt ar 9 Rhagfyr 2004 o dan Adran 16 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

**6.5 Cyfarwyddiadau a roddwyd yn flaenorol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy:** Hyd yn hyn, mae CNC (Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn flaenorol) fel yr Awdurdod Perthnasol ar gyfer coedwigoedd a choetiroedd wedi gwahardd mynediad cyhoeddus i'r safle yn barhaol ar 4 achlysur gwahanol o dan geisiadau â'r rhifau cyfeirnod canlynol:

(1) AP1002 106<sup>5</sup> am 9 mis ac 1 diwrnod, a ddaeth i ben ar 10 Mawrth 2006.

(2) AP 1004 727 am 6 mis namyn 1 diwrnod, a ddaeth i ben ar 7 Medi 2006.

(3) AP1005 767 am 3 blynedd, a ddaeth i ben ar 4 Medi 2009; ac

(4) AP1273 520 am 4 blynedd, sy'n dod i ben ar 30 Awst 2013.

## 7. MEINI PRAWF ASESU PERTHNASOL

**7.1** Daw'r wybodaeth ganlynol o ddogfen y Cyngor Cefn Gwlad Cymru, sydd wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru (15 Chwefror 2011), sy'n rhoi arweiniad statudol i Awdurdodau Perthnasol ar eu swyddogaeth o safbwynt cyfyngiadau mynediad lleol, Rhifyn 2 Cymru: Rhagfyr 2010, Set Meini Prawf 20 (Pennod 2.5) ar risgiau sy'n codi o arfau heb ffrwydro, tudalennau 127 i 129, ynghyd â siart penderfynu 2.5 ynghylch cyfarwyddiadau ar gyfer rheoli tir neu am resymau diogelwch y cyhoedd, ar dudalen 53.

- Oherwydd y perygl o niwed difrifol neu farwolaeth, mae'n debygol fod angen ymyrryd lle mae'r risg sy'n deillio o arfau heb ffrwydro wedi'i chadarnhau.<sup>6</sup>
- Ni fydd angen cyfyngiadau ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.<sup>7</sup>
- Gwahardd pobl o unrhyw ardal lle ceir perygl sylweddol wedi'i gadarnhau hyd nes bydd y perygl wedi'i ddirymu neu ei ddiddymu.<sup>8</sup>

---

<sup>5</sup> Heb i gais gael ei wneud gan y tirlfeddiannwr yn sgil pryderon sylweddol i ddiogelwch cyhoeddus

<sup>6</sup> Arweiniad statudol Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer Awdurdodau Perthnasol sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru; Set Meini Prawf 20, Cam 5, tudalen 127.

<sup>7</sup> Arweiniad statudol Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer Awdurdodau Perthnasol sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru; Set Meini Prawf 20, Cam 6, tudalen 128.

<sup>8</sup> Arweiniad statudol Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer Awdurdodau Perthnasol sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru; Set Meini Prawf 20, Cam 7, tudalen 128.

---

- 
- Gadael llwybrau neu ardaloedd eraill yn agored i'r cyhoedd os yw'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny.<sup>9</sup>
  - Os yw'n briodol gwneud hynny, dychwelyd at gam 8 (rhoi cyfarwyddyd) yn y nodiadau esboniadol ar gyfer siart penderfynu 2.5.<sup>10</sup>

## **8. PENDERFYNU – CYFYNGU A/NEU WAHARDD**

**8.1.** Fel yr Awdurdod Perthnasol ar gyfer coedwigoedd a choetiroedd, ac eithrio coedwigoedd a choetiroedd ar dir comin, cefais fy hysbysu gan yr ymgeisydd/tirfeddiannwr mai camgymeriad ar ei ran oedd cyflwyno'r parcel tir dan sylw yn wreiddiol.

**8.1.1** Pe bai cynnwys y weithred eiddo wedi dynodi unrhyw gysylltiad â'i ddefnydd milwrol blaenorol, yna ni fyddai'r cyflwyniad yn 2004 wedi digwydd.

**8.1.2** Er gwybodaeth, mae enw'r offeryn cyflwyno Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy dan sylw yn ymddangos fel "Ffridd Dôl-y-moch, Trawsfynydd, Gwynedd," sef yr ardal 365.50 hectar mewn gweithred eiddo sy'n 729.57 hectar i gyd. Noder bod yr ardal hon i gyd wedi'i chofnodi yn y ddogfen drawsgludo fel tir rhydd-ddaliadol ym Mhlwyf Trawsfynydd yn Sir Feirionnydd ("Freehold land in the Parish of Trawsfynydd in the County of Merioneth"), dyddiedig 24 Mawrth 1964.

**8.1.3** Mae'r ymgeisydd/tirfeddiannwr gyda'r Awdurdod Perthnasol wedi cyflawni ymarfer diwydrwydd dyladwy wrth archwilio'r ddeddfwriaeth sylfaenol dan sylw ac wedi dod i'r casgliad anffodus nad oes unrhyw ddarpariaethau yn bodoli o fewn y Ddeddf ar gyfer rhesymau diogelwch y cyhoedd neu gamgymeriadau gweinyddol, ac eithrio bod tir rhywun arall wedi'i gyflwyno drwy gamgymeriad, nad yw'n wir yn yr achos hwn, er mwyn diddymu neu ddirymu'r offeryn cyflwyno gwreiddiol a weithredwyd ar 9 Rhagfyr 2004.

**8.1.4** Gan hynny, yn dilyn cyflwyno cais gan y tirfeddiannwr i wahardd mynediad cyhoeddus yn barhaol o'r ardal gyfan am gyfnod o 5 mlynedd namyn 1 diwrnod, mae CNC fel yr Awdurdod Perthnasol ar gyfer coedwigoedd a choetiroedd yn fodlon bod y parcel tir a ddisgrifiwyd uchod yn parhau i fod yn "berygl sylweddol" i'r cyhoedd o dan y meini prawf a nodwyd cynt.

**8.1.5** Ein bwriad felly yw rhoi Cyfarwyddyd hirdymor i wahardd y cyhoedd yn barhaol o'r tir a ddisgrifiwyd (365.50 hectar) am 5 mlynedd namyn 1 diwrnod o 00.00 ddydd Gwener 30 Awst 2013 fel y nodir yn y drafft o'r Cyfarwyddyd hirdymor sydd wedi'i atodi.

---

<sup>9</sup> Arweiniad statudol Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer Awdurdodau Perthnasol sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru; Set Meini Prawf 20, Cam 7, tudalen 129.

<sup>10</sup> Arweiniad statudol Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer Awdurdodau Perthnasol sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru; Set Meini Prawf 20, Cam 8, tudalen 129.

---

---

## 9. CAMAU GWEITHREDU

**9.1** CNC fel yr Awdurdod Perthnasol ar gyfer coedwigoedd a choetiroedd sy'n gyfrifol am gyflwyno drafft o Gyfarwyddyd hirdymor o dan Adran 25 (1) b ac yna'i gyflwyno i'r Fforwm Mynediad Lleol a'r ymgynghoreion statudol i ymgynghori yn ei gylch fel y darperir ar ei gyfer naill ai o dan Adran 27 (1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a / neu o dan Reoliad 6 (2) a (3) (a) o Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu Mynediad) (Cymru) 2003, gan argymhell y dylid parhau i wahardd mynediad cyhoeddus i'r safle yn barhaol am resymau diogelwch y cyhoedd.

### 9.2 Camau i'w cymrud yn dilyn rhoi Cyfarwyddyd

- Fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu Mynediad) (Cymru) 2003, Rheoliad 12 (f), dylid darparu copi o'r Cyfarwyddyd terfynol i bob un o'r saith ymgynghorai statudol a restrir yn Atodlen 1 yn unol â Rheoliad 6 (2) o Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu Mynediad) (Cymru) 2003.
- Fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu Mynediad) (Cymru) 2003, Rheoliad 12 (e) ac (f), darparu copi o'r Cyfarwyddyd terfynol i (1) y Fforwm Mynediad Lleol, sef Ysgrifennydd Fforwm Mynediad Lleol De Eryri a (2) i'r Awdurdod Mynediad, sef Arweinydd y Tîm Hawliau Tramwy, Cyngor Sir Gwynedd.

### 9.3 Gwaith i'w wneud ar y safle yn dilyn rhoi Cyfarwyddyd

- Arwyddion gwahardd newydd, yn cynnwys map, i'w hailosod/diweddaru mewn amryw o leoliadau ar ymyl y safle. Y tirlfeddiannwr i gwblhau hyn cyn gynted ag y caiff y Cyfarwyddyd ei gymeradwyo.
- Staff swyddfa CNC Dolgellau i fonitro a chynnal a chadw'r arwyddion hyn ar y safle yn rheolaidd.

**Chris Botting MBA, MICFor**  
**Rheolwr Achosion Rheoleiddiol**  
**Grantiau a Rheoliadau Coedwigaeth**  
**Cyfoeth Naturiol Cymru**

**17 Mai 2013**

# ATODIAD 1: Map o'r ardal 365.50 hectar CNC sy'n cael ei heffeithio

